



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Rheoliadau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006

Mae Rhan 1 o Ddeddf Tai 2004 yn cyflwyno'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, sef system ar gyfer asesu cyflwr mangreoedd preswyl ar sail tystiolaeth ac i'r system honno gael ei defnyddio wrth orfodi safonau tai mewn perthynas â mangreoedd o'r fath.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliadau 5(a), 6(1)(b) ac (8) yn cyfeirio at y canllawiau a roddir o dan adran 9 o Ddeddf Tai 2004. Mae testun Cymraeg y Rheoliadau hyn yn defnyddio'r term "arweiniad" ar gyfer "guidance" er mai'r term a dderbyniwyd cyn hynny mewn is-ddeddfwriaeth y Cynulliad yw "canllawiau". Credir y dylid diwygio'r drafft er mwyn sicrhau cysondeb a gellir gwneud hyn drwy Femorandwm Cywiriadau. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Sylwadau

Mae Rheoliad 3(2) yn defnyddio'r acronym "HMO". Credir y byddai troednodyn i'r adran neu'r adrannau perthnasol o Ddeddf Tai 2004 sy'n diffinio'r term HMO o gymorth i'r darlennydd.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

13 Mehefin 2006